**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL PEN-Y-BONT AR OGWR**
**(HEOL PEN-Y-CAE, PEN-Y CAE)**
**HYSBYSIAD TRAFFIG DROS DRO 2024**

**HYSBYSIR DRWY HYN** bod y Cyngor fel yr Awdurdod Priffyrdd ar gyfer Pen-y-bont ar Ogwr drwy arfer ei bwerau o dan Adran 14(1) Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 (fel y'i diwygiwyd) wedi gwneud Gorchymyn a fydd yn cyflwyno dros dro'r cyfyngiadau a amlinellir yn yr atodlen isod.

Mae'r Gorchymyn yn hanfodol oherwydd lled annigonol y briffordd ar gyfer cynnal mynediad i gerbydau yn ystod gwaith rhoi wyneb newydd ar ffordd, ac er budd diogelwch y cyhoedd.

Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 29/04/2024 a bydd yn weithredol am fwyafswm cyfnod o 18 mis neu hyd nes y bydd y gwaith wedi ei gwblhau, pa bynnag un a ddaw gyntaf.

Rhagwelir y bydd y gwaith sydd wedi'i gynllunio yn digwydd rhwng yr oriau 08.00 a 17:00 o 29/04/2024 hyd 03/05/2024.

**Amserlen**
Ni fydd unrhyw berson yn achosi i unrhyw gerbyd ddefnyddio'r ffordd ar hyd Heol Pen-y-Cae, Pen-y-Cae, o'i chyffordd gyda Heol Rhyd hyd at 25 metr i'r dwyrain o bont yr afon.

Y ffordd amgen ar gyfer cerbydau yw drwy A4063 Heol Pen-y-bont ar Ogwr, Pen-y-Fai, A4063 Cylchfan Abercynffig, A4063 Heol Gyswllt Sarn, A4061/Cyffordd 36 M4, A4061 cylchfan Pen-y-cae, Heol Pen-y-cae ac i'r gwrthwyneb.

Bydd mynediad yn cael ei ddarparu drwy'r cyfyngiad ar gyfer yr Heddlu, Gwasanaethau Tân ac Ambiwlans fydd yn ymateb i unrhyw argyfyngau. Bydd mynediad i gerddwyr i'r holl eiddo o fewn yr ardal lle mae cyfyngiad yn cael ei gadw ar agor ar hyd llwybr a ddiffinnir, a hynny drwy gydol y cyfnod y bydd cyfyngiad.

Fodd bynnag, ni fydd y cyfyngiad yn weithredol ond ar yr adegau ac i'r graddau ag a nodir o bryd i'w gilydd gan arwyddion traffig a ragnodir gan Reoliadau a Chyfarwyddiadau Cyffredinol Arwyddion Traffig 2016.

Dyddiedig:25/04/2024
K Watson, Prif Swyddog Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddio, Adnoddau Dynol a Pholisi Corfforaethol – Cyfarwyddiaeth y Prif Weithredwr, Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, Swyddfeydd Dinesig, Stryd yr Angel, Pen-y-bont ar Ogwr CF31 4WB
K Watson, Chief Officer Legal & Regulatory Services, Human Resources and Corporate Policy - Chief Executive's Directorate, Bridgend County Borough Council, Civic Offices, Angel Street, Bridgend CF31 4WB.